ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Datganiad Ystadegol Cyntaf


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2018 i Awst 2019


**21 Hydref 2020**
**SFR 183/2020**

Mae'r Datganiad yma yn adrodd ar waharddiadau parhaol a chyfnod penodol gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd. Er bod y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn cyn dechrau'r pandemig coronafeirws (Covid-19), casglwyd y data yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2020. Oherwydd y pandemig ni chwblhawyd y casglu data o unedau atgyfeirio disgyblion (PRUs) felly mae rhyddhau yn cynnwys ysgolion a gynhelir yn unig.

**Siart 1: Cyfradd y Gwaharddiadau Tymor Penodol 5 Diwrnod neu Lai a Dros 5 Diwrnod mewn Ysgolion a Gynhelir**




**Siart 2: Cyfradd Gwaharddiadau Parhaol mewn Ysgolion a Gynhelir**




**Pwyntiau Allweddol – ysgolion a gynhelir**

- Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol wedi cynyddu (0.5 fesul 1,000 o ddisgyblion) yn 2018/19, o'i gymharu â 0.4 fesul 1,000 yn 2017/18.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau tymor penodol (dros 5 diwrnod) wedi aros yr un fath yn 2018/19 (1.7 gwaharddiad i bob 1,000 o ddisgyblion).
- Mae cyfradd y gwaharddiadau tymor penodol (5 diwrnod neu lai) wedi cynyddu yn 2018/19 i 39.1 fesul 1,000 o ddisgyblion.

## Am y datganiad yma

Mae data yn cael eu dangos ar gyfer Cymru. Mae’r wybodaeth yma yn ymwneud â'r blynyddoedd academaidd 2012/13 i 2017/18. Mae hefyd yn adrodd ar y rhesymau a roddir ar gyfer gwaharddiadau.

I gael dadansoddiad mwy manwl o gynnwys y datganiad yma, gwelwch y tablau cysylltiedig os gwelwch yn dda. Nodwch nid ydym bellach yn cyhoeddi data ar lefel awdurdod.

## Yn cyd-fynd a’r datganiad yma:

Tablau manwl

Nodiadau technegol a

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 5060 ~ ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5060 Twitter: @ystadegaucymru

## Math o Ysgol, 2018/19

Ysgolion arbennig oedd â’r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai a’r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol mwy na 5 diwrnod, tra roedd yn isaf yn ysgolion cynradd.

Ysgolion uwchradd oedd â’r gyfradd uchaf o waharddiadau parhaol.

## Hawl i brydau ysgol am ddim (FSM)

Mae’r gyfradd o waharddiadau parhaol a chyfnod penodol (5 diwrnod neu lai a mwy na 5 diwrnod) yn gyson (o leiaf tair gwaith) yn uwch ar gyfer disgyblion sydd â hawl i FSM na’r rhai sydd a dim hawl yn y cyfnod 2012/13 i 2017/18.

## Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)


Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy oedd a’r gyfradd uchaf o waharddiadau allan o ddisgyblion gydag AAA ym mhob blwyddyn a phob math o waharddiad.

Mae gan ddisgyblion gydag AAA raddau uwch o waharddiadau na disgyblion hen AAA.

## Cefndir ethnig


Ar gyfer disgyblion sydd â chefndir ethnig datganedig, y rhai sydd â chefndir ethnig “Gwyn” sydd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau sefydlog (5 diwrnod neu lai. Disgyblion sydd â chefndir Prydeinig Tsieineaidd neu Tsieineaidd sydd â'r cyfraddau gwahardd isaf.

### Siart 3: Cyfradd yr holl waharddiadau fesul nodweddion disgybl



## Rhesymau mwyaf cyffredin ar gyfer gwaharddiadau, 2018/19

### Siart 4: Canran y gwaharddiadau o Ysgolion a gynhelir yr ôl rheswm, 2018/19




Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros bob gwaharddiad yn 2018/19 oedd ‘ymddygiad aflonyddgar parhaus’.

‘Ymddygiad aflonyddgar parhaus’ oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros waharddiadau tymor penodol (5 diwrnod neu lai) ar 25.3% o’r holl waharddiadau tymor penodol (5 diwrnod neu lai).

‘Ymddygiad aflonyddgar parhaus’ hefyd oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros waharddiadau tymor penodol o 5 diwrnod neu fwy gan gyfrif am 19.6% o’r holl waharddiadau tymor penodol o 5 diwrnod neu fwy.

Y rhesymau mwyaf cyffredin dros waharddiadau parhaol oedd ‘ymosodiad corfforol yn erbyn disgybl’ (25.6%).

## Diffiniadau

### Mathau o waharddiadau a diffiniadau eraill

Mae **gwaharddiad parhaol** yn cyfeirio at ddisgybl sy'n cael ei wahardd ac mae ei enw'n cael ei ddileu o gofrestr yr ysgol. Byddai disgybl o'r fath wedyn yn cael ei addysgu mewn ysgol arall neu drwy ddarpariaeth o ryw fath arall.

Mae **gwaharddiad cyfnod penodol** yn cyfeirio at ddisgybl sy'n cael ei wahardd o ysgol ond sy'n aros ar gofrestr yr ysgol honno oherwydd y disgwylir iddo ddychwelyd ar ôl i gyfnod y gwaharddiad ddod i ben.

Mae **symudiad wedi'i reoli** yn drefniant lle mae rhieni disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn cytuno ag ysgolion ac awdurdodau lleol ei bod er budd pennaf eu plentyn gael ei dynnu o gofrestr yr ysgol bresennol a'i symud i sefydliad addysgol arall.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn yma:

Mae Lloegr yn cyhoeddi data gwaharddiadau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a ariennir gan y wladwriaeth yn y datganiad ystadegol o'r enw 'Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol yn Lloegr: 2017 i 2018'.

Mae'r Alban yn cyhoeddi data gwaharddiadau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yn y bwletin ystadegol 'Ystadegau cryno ar gyfer ysgolion yn yr Alban'.

Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi nifer y disgyblion sy'n cael eu diarddel neu eu diarddel dros dro o ysgolion cynradd, ôl-gynradd ac arbennig.

## Diweddariad nesaf

Medi 2020 (dros dro)

Fe fydd y diweddariad nesaf yn cynnwys adroddiad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.


## Drwydded Llywodraeth Agored

## Mae'r holl gynnwys ar gael

OGL